



NODION SEION

PASG 2017

DATHLU'R 30

Testun llawenydd ar Galan Ionawr 1987 fu cychwyn gwasanaeth Y Parchg. Andrew Lenny yn weinidog arnom, aelodau eglwys Iesu

Grist, yn Seion. Cynhaliwyd yr Oedfa Sefydlu brynhawn Sadwrn, Mawrth 28ain, 1987. Felly, nodwn a dathlwn eleni iddo dderbyn yr alwad 30 o flynyddoedd yn ôl. Bu iddo fynegi'r pryd hwnnw mai ei fraint a'i gyfrifoldeb fyddai "pregethu 'anchwiliadwy olud Crist' o bulpud Seion." Diolchwn i'r Arglwydd am ei gadw a'i gynnal i gyhoeddi Efengyl gras Duw i ni yn ddi-dor gydol y blynyddoedd hyn. Diolch yn fawr i chi, Andrew, ac i Rosemary hefyd.

Gair gan y Gweinidog

Mewn nifer o oedfeuron ac yn y Dosbarth Beiblaidd yr ydym wedi cael maeth ysbrydol a bendith o fyfyrion yn emynau William Williams. Cofiw'n eleni am ei enedigaeth union dri chan mlynedd yn ôl. Cawsom yn wir ein bendithio fel cenedl o gael emynau'r Pêr Ganiedydd i'n tywys i weld gogoniant Person Iesu a'n galluogi, yn arweiniad yr Ysbryd Glân, i ddirnad, wrth fyfyrion yn ei emynau, ystyr marw aberthol Iesu drosom ar groes o bren.

Dywedodd J.D. Vernon Lewis mai'r llinell, "*Iesu, nid oes terfyn arnat*" o eiddo William Williams yw'r llinell fwyaf ei hawgrym yn hanes holl emynau Cymru.

Dywedodd yr Arglwydd Iesu Grist, "Y nef a'r ddaear, ânt heibio, ond fy ngeiriau i, nid ânt heibio ddim" (Luc 21:33).

To Catch an Angel, yw teitl hunangofiant Robert Russell. Collodd ei olwg yn bump oed ond ni wnaeth achwyn ei gŵyn o gwbl. Americanwr ydoedd. Llwyddodd i ennill gradd yn Rhydychen a chael ei ddyrchafu maes o law yn Athro Llenyddiaeth mewn Prifysgol yn Chicago. Ar un cyfnod bu'r gŵr dall hwn yn byw ar ynys yng nghanol afon. Byddai'n mynd i rwyfo ar yr afon yn feunyddiol trwy

ddefnydd o system syml iawn. Wrth y polyn ar y lan, lle'r oedd yn clymu ei gwch, roedd ef wedi cysylltu cloch wrth ryw beiriant amseru. Roedd y gloch yn canu bob tri deg eiliad. Roedd e'n medru rhwyfo i fyny ac i lawr yr afon, a bob tri deg eiliad yn medru synhwyro pa mor bell oedd ef o'r ynys yn ôl sŵn y gloch. Wedi mwynhau orig o rwyfo roedd e'n medru dychwelyd wedyn at y lan yn ôl llwybr sŵn y gloch. Meddai, "Y mae'r afon yno o fy mlaen, yn wahoddiad parhaus, yn sialens barhaus, a fy nghloch yw'r llinyn o sain sy'n fy ngalluogi i ddychwelyd i fangre tawel a diogel."

Mae bywyd yn debyg i afon fawr. Mae Duw yn ein galw i fentro allan arni lle mae yna gyffro a pherygl. Er mwyn ein harbed rhag mynd ar goll wrth i ni fyw yn y byd mae angen cloch diogelwch arnom. Ein cloch diogelwch yw Gair Duw. Rhaid i ni wrando ar ei Air ac ar Iesu sydd ei hun yn Air Bywiol Duw. Pan yw afon bywyd yn wyllt a ninnau mewn perygl o fynd ar gyfeiliorn mae Gair Duw yn dod â ni adref i ddiogelwch dim ond i ni wrando ac ufuddhau yn nerth yr Ysbryd Glân. Ystyriwch un cyfarwyddyd o enau Iesu:

“Rwyf fi'n dweud wrthyfych: carwch eich gelynyon, bendithiwch y rhai sy'n eich mellthio, gwnewch ddaioni i'r rhai sy'n eich casáu a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid” (Mathew 5:44).

Ni ellir diddymu'r cyfarwyddyd yna o enau'r Arglwydd Iesu Grist. Mae ei eiriau yn dal i herio a dwysbigo. Cariad yw'r unig rym sy'n medru troi gelyn yn gyfaill – dyna a ddywed Iesu, ac mae'r gwirionedd yna yn oesol – nid oes terfyn iddo.

Nid oes twyll yng ngair yr Arglwydd ac ni all neb roi terfyn ar ei air a'i addewidion. Dywedodd Iesu nifer o weithiau wrth ei ddisgyblion,

“Y mae Mab y Dyn yn cael ei draddodi i ddwylo pobl, ac fe'i lladdant ef, ac wedi cael ei ladd, ymhen tri diwrnod fe atgyfoda” (Marc 9:31).

Croeshoeliwyd Iesu fel ag y bu iddo ragfynegi. Claddwyd ef mewn bedd yn y graig yng ngardd Joseff o Arimathea. Aeth dwy noson heibio a demoniaid uffern yn llawenhau, a Satan a galluoedd y tywyllwch yn sicr eu bod wedi ennill buddugoliaeth fawr. Ar nos Wener ac ar ddydd Sadwrn bu'r arweinwyr Iddewig ynghyd â'r llywodraeth Rufeinig yn llongyfarch eu hunain ar eu cynllwyn cyfrwys yn cael gwared y Saer o Nasareth. Ond ar fore'r Trydydd Dydd yn dawel a di-stŵr digwyddodd rhywbeth rhyfeddol a gwrthiol. Dywed yr Apostol Paul wrthym yn gwbl glir bod grym anorchfygol Duw wedi bod ar waith mewn modd unigryw pan gyfodwyd Crist o feirw. Meddai, “Cyfodwyd Crist oddi wrth y meirw mewn amlygiad o ogoniant y Tad” (Rhufeiniaid 6:4). Cyfeiriad at nerth Duw yw'r gair gogoniant yn y fan yna. Rhyddhawyd Iesu o afael marwolaeth gan nerth Duw.

“*Iesu, nid oes terfyn arnat*”. Llwyddodd dynion ei hoelio ar groes ond ni allasant ei gloi mewn bedd.

Credodd y diafol fod pechod a marwolaeth wedi ennill y dydd ar ddydd Gwener y Grogolith. Roedd y da a'r daionus, y gorau a welodd y byd wedi ei groeshoelio gan ddynion cythreulig a'i ladd. Ar fore'r Trydydd Dydd gwelwyd bod grym Duw yn gryfach na grym y diafol. Nid yr un math o rym sydd gan Dduw â hwnnw o eiddo'r Un Drwg. Grym sanctaidd cariad yw grym Duw, grym sy'n gwbl absennol yn y Drwg. Grym cariad ein Gwaredwr yw'r un nad oes terfyn arno.

Pe byddai Iesu yn dal yn ei fedd ni allasai fod yn Waredwr i neb. Cyfododd Duw ef yn brawf ei fod wedi derbyn ei aberth yn iawn am ein pechodau ni.

“*Iesu, nid oes terfyn arnat*”. Mae'r Crist byw yn medru ein cyrraedd ni pan na all neb arall ein cyrraedd ni. Mae'n cyrraedd y crediniwr sydd wedi derbyn ei aberth drosto ar y groes gyda balm ei faddeuant a'i gariad, ei dangnefedd ac ymwybyddiaeth real o'i gwmni.

Edrychwn ymlaen at Sul y Pasg i uno gyda'n gilydd i ddatlu atgyfodiad yr Arglwydd Iesu Grist - y Crist byw nad oes terfyn arno sydd gyda ni drwy'r Ysbryd Glân i'n galluogi i fod yn sianelau cariad a daioni, brawdgarwch a heddwch mewn byd sy'n dolurio ac mewn dirfawr angen am Waredwr all newid calon dyn.

Pasg llawen i chi gyd,
Andrew Lenny

Cymynrodd

Derbyniasom rodd o £20,000 yn ewyllys Mrs Gwenllian Meredith. Roedd Mrs Gwenllian Meredith yn un o blant yr eglwys ac roedd gwaith a thystiolaeth eglwys Seion yn agos iawn at ei chalon.

Ffyddloniaid a hunodd

Miss Rhiannon Margaret Hughes (2:12:16)
Mrs Nonna Edwards (29:12:16)

Cydymdeimlwn ag aelodau a gollodd anwyliaid

Mrs Rosemary Lenny (mam a modryb),
Parchg. Andrew Lenny (mam yng nghyfraith),
Mrs Mair Lenny Turner (mam-gu), Miss Llinos Hughes (chwaer), Mr David Griffiths (cefnder),
Mr Glyn Griffiths Jones (cefnder), Dr Nia Garrero (ewythr), Mrs Ann Griffiths (cyfnither),
Dr Richard Edwards (mam), Dr Dana Edwards (mam yng nghyfraith ac ewythr), Dr Dafydd Edwards (mam-gu), Miss Fflur Edwards (mam-gu), Mrs Elin Williams (tad), Mrs Barbara Thomas (mam), Yr Athro Dennis Thomas (mam yng nghyfraith), Mr Dewi a Mrs Valmai Jones (brawd yng nghyfraith).

Yn yr ysbyty neu newydd dderbyn triniaeth

Mrs Cassie Pugh, Mrs Eirian Gibson, Tirion Edwards, Mrs Joyce Evans, Mr Emyr James, Mr Dewi Jones.

Llongyfarchiadau

i Mr Dewi Jones ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 oed.

i Siwan ac Elfyn Henderson ar enedigaeth Inigo Math, brawd i Osian ac ŵyr i Malcolm a Nona Davies.

Hanes Seion, Aberystwyth 1878 – 2008

Bwriedir cyhoeddi'r gwaith hwn eleni. Bydd mewn dwy ran. Yn gyntaf, pymtheg pennod o hanes yr achos, yn cael ei ddilyn gan ddau ddwsin o atodiadau. Bydd y rhain yn rhestru'r digwyddiadau a phersonau a fu ynglŷn â'r hanes. Defnydd cyfeirlyfr fydd i'r adran hon yn bennaf.

Bydd yn ymddangos ar wefan Seion, ond gellir cael copi papur os dymunir. Bydd y gwaith ar gael i aelodau Seion yn ddi-dâl (un copi i bob teulu).

Os am gael mynediad i'r wefan neu archebu copi papur, a fyddech cystal â rhoi gwybod i'r

awdur, Glyn Lewis Jones, 27, Glan Rheidol, Aberystwyth SY23 3GG, neu ei ffonio ar 01970 624408, erbyn 20 Ebrill, 2017.

Cwrs Alffa y Myfyrwyr

Mae'n hyfrydwch calon bod deg o fyfyrwr ac ieuenticid yn dilyn y Cwrs Alffa bob nos Fercher. Ar hyd y blynyddoedd mae'r Cwrs Alffa wedi bod yn werthfawr iawn i lawer ohonom ac yn gyfrwng i gyflwyno sylfeini'r Ffydd, i drafod, adnewyddu a herio'r hyn yr ydym ni yn ei gredu. Boed i ni weddio am fendith Duw ar y rhai a ddaw ynghyd i festri Seion i ddilyn y Cwrs Alffa.

Cynllun y Ffordd

Daeth pymtheg ohonom i sesiwn cyntaf Cynllun y Ffordd ar nos Lun, 27 Chwefror, 2017. Mae'r DVD yn broffesiynol ac mae'r cwestiynau sydd wedi eu paratoi yn dreiddgar ac wedi creu trafodaethau dwys a bywiog ymhlith y tri grŵp yn y sesiwn cyntaf. "*Y Beibl ym mywyd yr eglwys heddiw*" yw teitl yr ail sesiwn. Cynhelir yr ail sesiwn ar nos Lun, 27 Mawrth am 7.00 o'r gloch.

Y Dosbarth Beiblaidd

Mae'r Dosbarth Beiblaidd yn dal i ddenu aelodau newydd. Cawsom fendith o bori yn emynau William Williams. Yn awr yr ydym yn canolbwyntio ar wisgoedd y Cristion yng ngoleuni 2 Pedr 1:5-7.

"Gwnewch eich gorau glas i ychwanegu rhinwedd at eich ffydd, gwybodaeth at rinwedd, hunanddisgyblaeth at wybodaeth, dyfalbarhad at hunanddisgyblaeth, duwioldeb at ddyfalbarhad, brawdgarwch at dduwioldeb, a chariad at frawdgarwch."

Cwis y Capeli

Llongyfarchiadau i dîm Seion (Gwenda James, Eifion Davies, Endaf a Sian Edwards) ar eu llwyddiant yng Nghwis y Capeli ym mis Ionawr.

Cyfeiriad Newydd

Dr Owain a Mrs Hawys Roberts, 4, Garreg Wen, Bow Street, SY24 5DG.

Dathlu'r Nadolig yn Seion



Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul

“Baban Bethlehem, Ffoadur yn yr Aiff, Gwaredwr y Byd” oedd thema Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul ac roedd y plant a'r ieuenctid ar eu gorau. Ni anghofir sgetys y tair coeden Nadolig gan Ifan, Elinor a Gruffudd. Cawsom ein harwain drwy'r digrif a'r dwys i gofio ac i ddathlu mewn modd trawiadol y gwir reswm am fodolaeth y Nadolig - bod Gwaredwr wedi ei eni sy'n Waredwr i bawb a ddaw ato.

Cawsom fonolog “Gwraig y Llety” gan Lowri Steffan ynghyd â charol gan barti canu'r mamau.

Canwyd Emyr y Ffoadur o waith Mererid Jenkins ar y dôn Eleazar gan Ifan Thomas wrth i luniau trawiadol o Mair a Joseff, am yn ail â lluniau o ffoaduriaid heddiw, ymddangos ar sgrin y pwynt pŵer. Gwelsom fod Iesu Grist ei hun wedi bod yn ffoadur yn yr Aiff a'i bod hi'n rhan o'n galwad ni fel Cristnogion i estyn mewn cariad at ffoaduriaid y byd heddiw.

Derbyniwyd offrwm o £635 ar derfyn yr oedfa i gefnogi Apêl Ffoaduriaid Cymorth Cristnogol a'r Groes Goch. Defnyddiwyd rhan o'r arian i brynu teledu yn anrheg Nadolig i deulu o Aleppo yn Syria sydd newydd ddod i'n plith.

Yn dilyn yr oedfa, braf oedd croesawu Siôn Corn i barti'r Ysgol Sul i rannu anrhegion i'r plant.

Oedfa Deuluol Bore Nadolig

Braf iawn oedd ymgynnull yn Deulu'r Ffydd ar fore dydd Nadolig i ddathlu genedigaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Roedd rhan amlwg gan yr ieuenctid yn yr oedfa. Darllenwyd o'r Ysgrhythur gan Tomos Gruffudd Roberts Young, cawsom ddatganiad ar yr ewffoniwm gan Meleri Pryse ynghyd ag unawdau gan Sophie Rudge ac Ifan Thomas. Cafodd y plant hwyl wrth ddangos eu hanrhegion i'r gweinidog cyn iddo yntau rannu neges am y Gwaredwr sy'n newid calonnau anrhegion i'r plant.

Y Gymdeithas

Ein siaradwr gwadd ar ddechrau gweithgareddau'r Gymdeithas am 2017 oedd Dr Endaf Edwards. Brodor o Ystrad Meurig yw Endaf ac mae o a'i wraig Sian yn aelodau o deulu Seion ers sawl blwyddyn. Drwy gyfrwng sgwrs a sleidiau cawsom hanes blwyddyn arbennig a hynod dreuliodd Endaf fel Maer Aberystwyth. Bu protestiadau, dathliadau ac achlysuron lleol a chenedlaethol yn gymysg a theithiau i'r Iwerddon, Ffrainc a'r Almaen yn britho 2015/2016. Yn amlwg, mae bywyd Maer yn amrywiol a phrysur iawn. Nos Fawrth, 14 Chwefror ein gŵr gwadd oedd Wynne Melville Jones. Testun Wynne oedd 'Syniadau' ac aeth â ni ar daith o Ysgol Tregaron i Adran Gelf Coleg y Drindod, ymlaen i'w gysylltiadau â'r Urdd, sefydlu Llwybr Llên yn Llandre cyn ein hebrwng at ei 'syniad' diweddaraf - i fynd yn ôl i arlunio wedi iddo ymddeol. Roedd gan Wynne 'props' i'w helpu i adrodd ei stori ac er bod rhai o leoliadau'r peintiadau ddim mor gyfarwydd i ambell un o'r gynulleidfa, roedd pawb yn adnabod Mistar Urdd. Dathlwyd Gŵyl Ddewi gyda thri o'n haelodau yn datgan "Beth yw bod yn Gymro/Gymraes". Y dewrion oedd June Griffiths, Leon Gibson a Nerys Llewelyn a chafwyd noson hwyliog a diddorol iawn yn gwrandao ar y dylanwadau - yn deulu, cydnabod a chymdeithas, sydd wedi gwneud y triawd arbennig yma yr hyn dynt. Rhannwyd hanesion dwfn a difyr a chafwyd cyfle ymysg ffrindiau i ddwyn i gof anwyliad ac amser hudolus a diniwed 'ers talwm'. Parhaodd y drafodaeth dros luniaeth blasus a baratowyd gan y gwragedd. Llauer o ddiolch i June, Leon a Nerys am fodloni i rannu eu profiadau.

Bore Coffi'r Gymdeithas

Os ydych yn fodlon helpu yn achlysurol i baratoi'r bore coffi misol ar gyfer y Gymdeithas a fydddech cystal â rhoi gwybod i Gwenda James (Ysgrifennydd) os gwelwch yn dda (gwenda_llan@yahoo.co.uk).

Oedfa Nadolig y Myfyrwyr

Braint fawr i ni yn eglwys Seion ar hyd y blynyddoedd yw cael cwmni myfyrwyr yn cydaddoli â ni yn oedfeun y Sul ac eleni eto cawsom oedfa Nadolig arbennig o dan eu harweiniad. O dan arweiniad grŵp offerynnol y myfyrwyr cawsom flas ar ganu emynau a charolau cyfoes.

Cawsom gyfle i weld DVD eithriadol o afaelgar yn ein dwyn ni wyneb yn wyneb â gwir ystyr y Nadolig. Yn dilyn darlleniadau o'r Gair a gweddiâu, rhannodd un o'r myfyrwyr ei dystiolaeth bersonol â ni.

Rhannwyd neges o'r Gair gan y Gweinidog yn seiliedig ar y geiriau, "Anfonodd Duw ei Fab" (Galatiaid 4:4).

Bu'r oedfa hon yn foddion gras i ffyddloniaid eglwys Seion ac i bawb oedd yn bresennol. Yn dilyn yr oedfa cawsom fwynhau swper blasus yng nghwmni ein gilydd wedi ei baratoi gan ferched Seion.

Canu carolau o gylch Ysbyty Bronglais

Braf iawn eleni eto oedd ymuno â Christnogion o wahanol eglwysi'r dref i ganu carolau o gylch wardiau'r ysbyty. Caiff hyn ei werthfawrogi'n fawr gan gleifion a'u teuluoedd ynghyd â'r staff.

I'ch Dyddiadur...

Dydd Sul, Mawrth 19

10:00 Oedfa Deuluol yng nghwmni'r plant a'r ieuencid i gofio tri chanmlwyddiant geni William Williams. Yn dilyn yr oedfa bydd paned yn y festri a chyfle i gyfrannu at Apêl Dioddefwyr De Swdan. Mae can mil o bobl mewn perygl o farw o newyn yno.

6.00 Oedfa'r hwyr.

Nos Fawrth, 21 Mawrth

7:00 Cyfarfod o Gymdeithas y Capel. Sgwrs gan Mr Gerallt Davies.

Nos Lun, 27 Mawrth

7.00 Croeso i ail sesiwn Cynllun y Ffordd - "Y Beibl ym mywyd yr eglwys heddiw".

Dydd Mercher, 29 Mawrth

10:00 byddwn yn cynnal sesiynau i gyflwyno *Profiad y Pasg* i blant o ysgolion yr ardal.

Bore Mercher, 5 Ebrill

10:30 Bore Coffi Cymdeithas y Capel

Nos Iau Cablyd, 13 Ebrill

7:00 Oedfa Gymun Undebol yng Nghapel y Morfa

Dydd Gwener y Groglith, 14 Ebrill

10:00 Oedfa Gymraeg Unedig ym Methel Bydd gorymdaith y Groglith yn dilyn am **11:15** o ben y Stryd Fawr (wrth y cloc) ac yn gorffen yn Stryd y Popty lle cynhelir oedfa fer a gweithgarwch amrywiol.

Sul y Pasg, 16 Ebrill

10:00 Oedfa Deuluol i ddathlu'r Atgyfodiad yng nghwmni'r plant a'r ieuencid.

Gweinyddir Ordinhad Swper yr Arglwydd.

6:00 Oedfa'r hwyr.

17-20 Ebrill - Gŵyl Gristnogol Llanw yng Nghricieth.

Bore Mercher, 3 Mai

10:30 Bore Coffi Cymdeithas y Capel

Dydd Sul, 14 Mai

10:00 Oedfa Deuluol yng nghwmni plant ac ieuencid Ysgolion Sul Gogledd Ceredigion yng Nghapel Bethel, Talybont.

5.30 Cymanfa Ganu Eglwys Gogledd Ceredigion Methel, Talybont.

Arweinydd: Mr Alwyn Evans

14-20 Mai

Wythnos Cymorth Cristnogol a'r casgliad o ddrws i ddrws.

Dydd Mercher, 24 Mai

Cynhelir Cwrdd Chwarter Cyfundeb Ceredigion yng Nghapel Troedyrhiw, Cribyn.

3:30 Cynhadledd

6:30 Y Gymanfa Bregethu

Dydd Sul, 4 Mehefin

3:30 Byddwn yn cynnal oedfa yng Nghartref Tregerddan.

Rihyrsals y Gymanfa Ganu

Ebrill 5, 7pm Capel y Morfa

Ebrill 12, 7pm Capel y Garn

Ebrill 26, 7pm Bethel, Aberystwyth

Mai 3, 6.30pm Seion, Stryd y Popty

Mai 10, 7pm Bethel, Talybont

Trefn Gwasanaethau'r Cymun

Sul y Pasg (bore), Mai 7 (hwyr),

Mehefin 4 (hwyr)

Pregethwyr

23 Ebrill Y Parchg. Euros Wyn Jones

30 Ebrill Y Parchg. Carwyn Siddall

28 Mai Karen Owen

25 Mehefin Y Parchg. Casi Jones

Cynhelir y cyfarfod nesaf o Bwyllgor Nodion Seion ar Mai 22, 2017.